# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 20 Tachwedd 2017

Amser: Times Not Specified

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4341

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AC (Cadeirydd)<br>Nathan Gill AC<br>Dai Lloyd AC<br>David Melding AC |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.24A, datganodd y Cadeirydd Mick Antoniw AC fuddiant perthnasol mewn perthynas ag SL(5)150 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017. Hysbysodd y Pwyllgor na fyddai'n cymryd rhan yn y trafodion ar gyfer yr eitem honno.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 2 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): Tystiolaeth gan y Gweinidog Tai ac Adfywio

## 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 3.1 SL(5)143 – Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Gweinyddu) (Cymru) 2017

### 3.2 CLA(5)145 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol a Chytundebau Gwasanaethau Deintyddol Personol) (Cymru) (Diwygio) 2017

### 3.3 SL(5)146 – Gorchymyn Adnoddau Dŵr (Dirymiadau Amrywiol) (Cymru) 2017

### 3.4 SL(5)142 – Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Datgelu a Ganiateir) (Cymru) 2017

### 3.5 SL(5)151 – Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017

Trafododd y Pwyllgor yr offerynnau ac roedd yn fodlon arnynt.

## 4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 4.1 SL(5)144 – Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2017

### 4.2 SL(5)147 – Rheoliadau Tynnu Dŵr (Darpariaethau Trosiannol) 2017

### 4.3 SL(5)148 – Rheoliadau Tynnu Dŵr a'i Gronni (Esemptiadau) 2017

### 4.4 SL(5)149 – Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017

Ystyriodd y Pwyllgor yr offerynnau a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 5 MCOS(5)1 – Memorandwm Cydsynio Offeryn Statudol

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a chytunodd i'w ystyried mewn sesiwn breifat.

## 6 Papurau i'w nodi

### 6.1 Newid yr Aelod sy'n gyfrifol am Filiau

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Prif Weinidog.

### 6.2 Llythyr at Lywodraeth y DU ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael):

Nododd y Pwyllgor lythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol at Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Is-ysgrifennydd Seneddol ar gyfer Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.47, gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod i ganiatáu ar gyfer enwebiadau Cadeirydd dros dro.

## 7 Ethol Cadeirydd dros dro o dan Reol Sefydlog 17.22

Gofynnodd y Clerc am enwebiadau ar gyfer Cadeirydd dros dro. Yn unol â Rheol Sefydlog 17.22, enwebodd Dai Lloyd AC David Melding AC. Etholwyd David Melding yn Gadeirydd Dros Dro ar gyfer eitemau 8 a 9.

## 8 Offeryn sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 8.1 SL(5)150 - Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2017

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn a bydd yn adrodd i'r Cynulliad yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Cytunodd y Pwyllgor i ystyried ymateb Llywodraeth Cymru yn ei gyfarfod nesaf.

## 9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes a ganlyn:

Derbyniwyd y cynnig.

## 10 Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru): trafod y dystiolaeth

Ystyriodd y pwyllgor y dystiolaeth a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru).

## 11 Blaenraglen waith

Trafododd y Pwyllgor y flaenraglen waith a chytunodd arni.